

Peter Fox OBE MS

Aelod o'r Senedd dros
Fynwy

Member of the Senedd for
Monmouth

Paul Davies AS

Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Senedd Cymru

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Peter.fox@senedd.cymru

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Peter.fox@senedd.wales

0300 200 7298 

@Peterfox_ms 

@PeterFox61 

Peter Fox MS 

Dyddiad: 26 Ionawr 2023

Annwyl Paul,

Parthed:- Sesiwn graffu ddiweddar ar y Bil Bwyd (Cymru).

Ysgrifennaf atoch yn dilyn fy ymddangosiad diweddar gerbron Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ynghylch fy Mil Bwyd (Cymru).

Hoffwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor am fy ngwahodd i'r sesiwn graffu, ac am agwedd adeiladol yr holl Aelodau. Roedd y sylwadau a wnaed am y Bil yn ddefnyddiol iawn, a byddant yn fy helpu i a'm tîm i wella'r Bil wrth iddo symud drwy broses ddeddfwriaethol y Senedd.

Wrth gwrs, rwy'n dal i gredu'n gryf y bydd Bil Bwyd (Cymru) yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o lywodraethu'r system fwyd gyfan yng Nghymru yn fwy effeithiol.

Mae'r Memorandwm Esboniadol a'r rhanddeiliaid yr wyf wedi ymgynghori â nhw drwy gydol y broses hon – y mae'r Pwyllgor eisoes wedi siarad â rhai ohonynt yn ei sesiynau craffu hyd yn hyn – wedi nodi'n glir nad yw system fwyd Cymru fel y mae yn caniatáu dull cydgysylltiedig o ddatblygu polisi sy'n ymwneud â bwyd, a bod diffyg craffu cyffredinol ar strategaethau presennol Llywodraeth Cymru.

Er fy mod yn gwerthfawrogi awgrymiadau y gallai'r fframweithiau deddfwriaethol presennol gynnig dewis amgen i Fil annibynnol, credaf y gallai ychwanegu meysydd polisi ar wahân at ddeddfwriaeth gyffredol neu ddeddfwriaeth sy'n cael ei datblygu leihau nodau'r Bil arfaethedig hwn. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y system fwyd i lesiant, iechyd a ffyniant ein cymunedau, ac mae'n hanfodol ein bod yn ystyried yn iawn sut yr ydym yn sefydlu sail statudol gryfach y gall y system fwyd weithredu'n effeithiol ynddi, gan ein helpu i fodloni ein nodau ehangach.



Senedd Cymru
Welsh Parliament



Welsh
Conservatives

Ceidwadwyr
Cymreig

Fel yr wyf wedi sôn drwy gydol proses y Bil, credaf y dylid mynd ati i ddatblygu deddfwriaeth mewn ffordd agored, gydweithredol. Drwy gydweithio fel Senedd ac mewn cydweithrediad agos â rhanddeiliaid allanol, gallwn sicrhau bod polisi sy'n deillio o ddeddfwriaeth mor effeithiol â phosibl.

Yn yr ysbryd hwn yr hoffwn gynnig ymgysylltiad parhaus â'r Pwyllgor ynghylch y Bil Bwyd (Cymru), ac yn benodol unrhyw faterion y teimlwch y dylid rhoi sylw iddynt yn ystod y cyfnodau deddfwriaethol sy'n weddill. Edrychaf ymlaen at ystyried unrhyw welliannau i'r Bil y mae'r Pwyllgor yn eu hystyried yn briodol.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch i'ch cynorthwyo gyda'ch gwaith craffu, mae croeso i chi ysgrifennu ataf.

Cofion Cynnes,



Peter Fox AS dros Fynwy

Aelod sy'n Gyfrifol, Bil Bwyd (Cymru).